# Atebion a roddwyd i Aelodau ar 5 Mai 2009

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

4 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

4 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus

5 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Dreftadaeth

7 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Faint o geisiadau a gyflwynwyd hyd yn hyn ers lansio'r cynllun ProAct? (WAQ53948)

**Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (Jane Hutt):** Cafwyd 139 o geisiadau am gynllun ProAct hyd yma, ac maent oll wedi cael eu hystyried gan banel ProAct.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Faint o geisiadau a gymeradwywyd hyd yn hyn ers lansio'r cynllun ProAct a beth yw cyfanswm y cyllid a ddarparwyd? (WAQ53949)

**Jane Hutt:** Mae 40 o gynlluniau hyfforddi wedi'u cymeradwyo hyd yma gwerth £5.6m.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Faint o geisiadau a wrthodwyd hyd yn hyn ers lansio'r cynllun ProAct? (WAQ53950)

**Jane Hutt:** Mae 12 o geisiadau wedi'u gwrthod gan y paneli ProAct hyd yma. Mae cwestiynau wedi codi ynglŷn â 33 arall sydd angen eu datrys cyn y gellid symud y cais yn ei flaen.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Beth yw'r cyfnod cyfartalog y mae'n rhaid i ymgeiswyr aros am benderfyniad ynghylch cyllid dan y cynllun ProAct? (WAQ53951)

**Jane Hutt:** Unwaith y caiff cynllun hyfforddi a'r dogfennau cysylltiedig eu cwblhau'n briodol, un dydd y byddant yn aros am ateb ar gyfartaledd.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Beth yw'r cyfnod hwyaf y mae'n rhaid i ymgeisydd aros am benderfyniad ynghylch cyllid dan y cynllun ProAct? (WAQ53952)

**Jane Hutt:** Mae'r cyfnod y bydd ymgeisydd yn aros am benderfyniad ar yr arian y bydd yn ei dderbyn yn dibynnu'n llwyr ar gyflwyno'r cynllun hyfforddi a'r dogfennau cysylltiedig yn briodol. Y cyfnod hiraf y bu'n rhaid i ymgeisydd aros ar ôl cwblhau cais oedd 9 diwrnod.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Faint o weithwyr a gollodd eu swyddi sydd wedi cael eu helpu dan y cynllun ReAct ers ei lansio ym mis Tachwedd 2008? (WAQ53958)

**Jane Hutt:** Mae 4,463 o weithwyr sydd wedi cael eu diswyddo wedi defnyddio cymorth ReAct ers i'r rhaglen gyfredol gael ei lansio ar 1 Hydref 2008

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Faint o arian a ddarparwyd mewn cymorth grant i weithwyr a gollodd eu swyddi dan y cynllun ReAct ers ei lansio ym mis Tachwedd 2008? (WAQ53959)

**Jane Hutt:** Mae grantiau gwerth £8,537,453 wedi cael eu dyfarnu, a £3,152,519 wedi'u talu ers lansiad y rhaglen gyfredol ar 1 Hydref 2008

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Faint o gyflogwyr sydd wedi cyflogi gweithwyr a gollodd eu swyddi dan y cynllun ReAct ers ei lansio ym mis Tachwedd 2008? (WAQ53960)

**Jane Hutt:** Mae 466 o gyflogwyr wedi defnyddio cymhorthdal cyflog ReAct i gyflogi gweithiwr sydd wedi cal ei ddiswyddo ers i'r rhaglen gyfredol gael ei lansio ar 1 Hydref 2008.

**Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** Pam y penderfynwyd torri'r cyllid i Feithrinfa Canolfan Tryweryn? (WAQ53986)

**Jane Hutt:** Mae Cyngor Sir Gwynedd wedi rhoi arian ym maes gofal plant drwy Cymorth a Dechrau'n Deg, a dyma oedd unig gyllid Canolfan Tŷ Tryweryn.

Mae'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc yng Ngwynedd wedi nodi yn ei chynlluniau bod rhianta yn flaenoriaeth allweddol. Mae wedi archebu gwasanaeth gofal plant yn Nhŷ Tryweryn er mwyn i rieni allu cymryd rhan mewn cyrsiau rhianta. Credai'r Bartneriaeth fod y gwasanaeth a ddarparwyd yn y ganolfan yn werthfawr ac roeddent am i hyn barhau. Yn wir, cynigiwyd cymorth i Dŷ Tryweryn o ran arallgyfeirio'r gwasanaeth hwn gan y bartneriaeth, a gwnaed awgrymiadau am ffyrdd o greu incwm. Penderfynodd Tŷ Tryweryn nad dyma'r ffordd ymlaen iddynt a gwnaed y penderfyniad i gau'r cyfleuster.

**Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** Sawl gwaith y mae'r heddlu wedi cael eu galw i ysgolion yng Nghymru ym mhob un o'r 5 mlynedd diwethaf? (WAQ53997)

**Jane Hutt:** Ni chedwir y data hyn yn ganolog gan Lywodraeth Cynulliad Cymru na'r Swyddfa Gartref.

**Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** Faint o ddisgyblion sydd mewn addysg chweched dosbarth o'i gymharu â 10 mlynedd yn ôl? (WAQ53999)

**Jane Hutt:** Mae nifer y disgyblion chweched dosbarth mewn ysgolion uwchradd a gynhelir, ar gyfer 1998 a 2008, yn y tabl isod.

**Disgyblion chweched dosbarth mewn ysgolion uwchradd a gynhelir**

| Blwyddyn | Nifer y disgyblion ar y gofrestr | Nifer y disgyblion chweched dosbarth | Canran y disgyblion sydd mewn chweched dosbarth |
|---|---|---|---|
| **1998** | 201,852 | 23,915 | 11.8 |
| **2008** | 206,936 | 28,080 | 13.6 |

Ffynhonnell: Cyfrifiad Ysgolion

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gydag awdurdodau lleol yng Nghymru i sicrhau bod arian cyfatebol ar gael ar gyfer y £250,000 a ymrwymwyd i ymestyn cyfleoedd chwarae ar gyfer plant anabl? (WAQ54003)

**Jane Hutt:** Rydym yn cynnal trafodaethau â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ynglŷn â'r gronfa o £250,000 a bennwyd i ehangu cyfleoedd chwarae i blant anabl.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Beth oedd cost y cynllun brecwast ysgol y llynedd? (WAQ54008)

**Jane Hutt:** Nid yw'r ffigurau terfynol ar gyfer 2008-09 ar gael eto. Yn seiliedig ar wybodaeth gyfredol rydym yn disgwyl gwariant o £8.7 miliwn ar y fenter brecwast am ddim mewn ysgolion cynradd.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y camau mae'n eu cymryd i sicrhau bod pob cais cynllunio'n cael ei drin yn unol â thargedau Llywodraeth Cynulliad Cymru? (WAQ53992)

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai (Jane Davidson):** Mae Llywodraeth y Cynulliad yn argymell y dylid penderfynu ar 80% o geisiadau cynllunio o fewn wyth wythnos. Y cyfartaledd yn awdurdodau cynllunio Cymru yw 60% ar hyn o bryd. Ar hyn o bryd rydym yn canolbwyntio ar yr awdurdodau gwanaf ac mae cyngor gan Swyddfa Archwilio Cymru yn nodi bod eu perfformiad yn gwella'n raddol.

Rwyf eisoes wedi amlinellu ymrwymiad Llywodraeth y Cynulliad i symleiddio'r broses o wneud ceisiadau cynllunio, ac yn fuan byddwn yn comisiynu gwaith ymchwil a fydd yn nodi anawsterau cyffredin yn y system, yn ogystal ag arferion gorau y gall awdurdodau eraill eu defnyddio i ddysgu. Bydd y dystiolaeth hon yn cyfeirio gwaith y dyfodol o ran gwella a chyflymu'r broses o fynd i'r afael â cheisiadau cynllunio.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa gyfran o daliadau Llywodraeth Cynulliad Cymru i gontractwyr sy'n cael eu talu cyn pen 10 diwrnod ym mhob mis ers gwneud yr ymrwymiad yn yr ail uwchgynhadledd economaidd ar 6 Tachwedd 2008? (WAQ53954)

**Y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus (Andrew Davies):** Yn seiliedig ar y wybodaeth a gofnodwyd ym mhob un o adrannau Llywodraeth Cynulliad Cymru, mae cyfran y taliadau a wneir i gontractwyr bob mis fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Tachwedd 2008 | 94.9% |
| Rhagfyr 2008 | 90.3% |
| Ionawr 2009 | 93.8% |
| Chwefror 2009 | 95.8% |
| Mawrth 2009 | 95.6% |

Nid oes ffigurau ar gyfer mis Ebrill 2009 ar gael ar adeg ysgrifennu (1 Mai 2009), ond byddwn yn parhau i fonitro perfformiad yn erbyn y targed newydd.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi manylion sawl metr sgwâr o arwyneb swyddfa gwag sy'n berchen i Lywodraeth Cynulliad Cymru a Chyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad? (WAQ54004)

**Andrew Davies:** Mae 782 metr sgwâr o swyddfeydd gwag yn ystad weinyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru, sef tua 0.7% o'r ystad weinyddol.

Ar hyn o bryd, ni chedwir gwybodaeth yn ganolog ar gyfer Cyrff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Beth yw'r amcangyfrif o gost cynnal eiddo gwag sy'n berchen i Lywodraeth Cynulliad Cymru a Chyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf? (WAQ54005)

**Andrew Davies:** Cyfanswm costau rhedeg adeilad blynyddol (gan gynnwys gwaith cynnal a chadw) y swyddfeydd gwag yn ystad weinyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer 2008/09 oedd £188,000. Mae cyfleoedd i ailddefnyddio neu i gael gwared ar y lle gwag hwn wedi'u nodi.
Ar hyn o bryd, ni chedwir gwybodaeth yn ganolog ar gyfer Cyrff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Faint o le swyddfa newydd sydd wedi cael ei greu yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a Chyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad? (WAQ54006)

**Andrew Davies:** Yn 2008/09 prynwyd tua 330 metr sgwâr o swyddfeydd newydd ym Mharc Bocam, Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer CAFCASS Cymru. Disodlwyd swyddfeydd anaddas ar brydles yn y dref gan y swyddfeydd newydd, gan wella cyfleusterau cyhoeddus yn yr ardal. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wrthi'n cael gwared ar yr eiddo hwn sydd dros ben.

Ar hyn o bryd, ni chedwir gwybodaeth yn ganolog ar gyfer Cyrff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Dreftadaeth

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sefyllfa ariannol yr Ardd Fotaneg Genedlaethol ar gyfer y flwyddyn ddiwethaf y mae ffigurau ar gael ar ei chyfer. (WAQ54020)

**Y Gweinidog dros Dreftadaeth (Alun Ffred Jones):** Am resymau cyfrinachedd masnachol, ni fyddai'n addas gwneud sylwadau manwl ar sefyllfa ariannol yr Ardd Fotaneg Genedlaethol.

Mae'r tywydd gwael yn ystod hafau diweddar wedi arwain at bwysau llif arian, sy'n cael ei adlewyrchu yng nghyfrifon archwiliedig yr Ardd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2008. I helpu'r Ardd i oresgyn y problemau hyn, cytunais yn ddiweddar i amrywio cytundeb cyllid refeniw tair blynedd Llywodraeth y Cynulliad i gyflwyno cyfran o'r arian a oedd yn daladwy yn 2010/11, yn 2008/09.

Mae'r Ardd yn hyderus y bydd hyn yn ei galluogi i weithredu ei Chynllun Busnes ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod yn llawn. Hefyd, yn rhan olaf 2008, cyflawnwyd proses fawr o ran ailstrwythuro a lleihau costau gan yr Ardd, ac mae manteision hyn yn dechrau dod i'r amlwg.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa gymorth ariannol y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cynnig ei ddarparu i'r Ardd Fotaneg Genedlaethol ar gyfer eleni a'r ddwy flynedd nesaf. (WAQ54021)

Alun Ffred Jones: Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhoi £550,000 mewn refeniw cyllid i'r Ardd yn 2009/10, a £350,000 yn 2010/11. Yn gyfnewid am hyn, mae'n rhaid i'r Ardd gyflawni cyfres o ganlyniadau, gan gynnwys rhaglen addysgol, a rhaglen o waith ymchwil gwyddonol a garddwriaethol.

Mae'r arian yn cael ei ddarparu o dan delerau cytundeb tair blynedd a ddechreuodd ym mis Ebrill 2008. Byddai unrhyw gymorth ariannol i'r Ardd yn 2011/12 ac wedi hynny, yn ddibynnol ar ganlyniad adolygiad annibynnol o ofynion refeniw tymor canolig a hirdymor yr Ardd.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sefyllfa ariannol Canolfan Mileniwm Cymru ar gyfer y flwyddyn ddiwethaf y mae ffigurau ar gael ar ei chyfer. (WAQ54022)

**Alun Ffred Jones:** Am resymau cyfrinachedd masnachol, ni fyddai'n addas gwneud sylwadau manwl ar sefyllfa ariannol Canolfan Mileniwm Cymru. Mae'r archwiliad o gyfrifon statudol Canolfan Mileniwm Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2008 wrthi'n cael ei gwblhau, a bydd y cyfrifon ar gael o fis Gorffennaf. Yn dilyn y cymorth refeniw ehangach a roddwyd i Ganolfan Mileniwm Cymru gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, ac er gwaetha'r amgylchedd economaidd anffafriol presennol, mae'n bleser gennyf nodi bod sefyllfa ariannol y Ganolfan yn gadarn ar hyn o bryd.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa gymorth ariannol y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cynnig ei ddarparu i Ganolfan Mileniwm Cymru ar gyfer eleni a'r ddwy flynedd nesaf. (WAQ54023)

**Alun Ffred Jones:** O dan y cytundeb cyllid refeniw tair blynedd a ddechreuodd ym mis Ebrill 2008, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhoi cymorth refeniw o £3.7 miliwn y flwyddyn ar gyfer 2009/10 a 2010/11 i Ganolfan Mileniwm Cymru. Yn gyfnewid am hynny, mae'n rhaid i Ganolfan Mileniwm Cymru sicrhau canlyniadau sy'n ymwneud â'i rôl fel theatr a chanolfan celfyddydau o'r radd flaenaf, a chyflawni cyfres heriol o reolaethau a thargedau ariannol. Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd yn cynnal trafodaethau â Chanolfan Mileniwm Cymru am gyfrannu'n ariannol tuag at gostau cyfalaf y Ganolfan ar gyfer y cyfnod hwn. Byddai unrhyw gymorth ariannol i Ganolfan Mileniwm Cymru ar ôl 2011/12, yn ddibynnol ar ganlyniad adolygiad o ofynion refeniw tymor canolig a thymor hwy ac arian cyfalaf y Ganolfan.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog restru'r llyfrgelloedd sydd wedi cau ym mhob blwyddyn er 2000? (WAQ54026)

**Alun Ffred Jones:** Nid yw'r wybodaeth y gofynnwys amdani ar gael.

Gweler y tabl isod sy'n amlinellu nifer y canghennau llyfrgelloedd cyhoeddus fesul awdurdod, gan gynnwys llyfrgelloedd teithiol, o 2000-01 i 2007-08. Daw'r ffigurau o Ystadegau Llyfrgelloedd Cyhoeddus y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) sef y prif gyhoeddiad ystadegol blynyddol ar gyfer llyfrgelloedd cyhoeddus. Mae copïau ar gael yn llyfrgell Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Tabl: Nifer y canghennau llyfrgelloedd yng Nghymru fesul awdurdod (gan gynnwys llyfrgelloedd teithiol a changhennau sydd ar agor am lai na 10 awr yr wythnos)

| **Awdurdod** | **2000-01** | **2001-02** | **2002-03** | **2003-04** | **2004-05** | **2005-06** | **2006-07** | **2007-08** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Blaenau Gwent | 9 | 9 | 9 | 9 | 9 | 7 | 7 | 7 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 15 | 15 | 17 | 18 | 18 | 18 | 17 | 17 |
| Caerffili | 23 | 23 | 23 | 23 | - | 22 | 22 | 22 |
| Caerdydd | 22 | 22 | 22 | 22 | 20 | 22 | 22 | 22 |
| Sir Gaerfyrddin | 40 | 40 | 40 | 38 | 39 | 39 | 37 | 36 |
| Ceredigion | 14 | 13 | 13 | 13 | 13 | 12 | 13 | 13 |
| Conwy | 15 | - | - | 15 | 15 | 14 | 14 | 14 |
| Sir Ddinbych | 10 | 10 | 10 | 10 | - | - | 8 | - |
| Sir y Fflint | 24 | 24 | 24 | 24 | 24 | 19 | 20 | 36 |
| Gwynedd | 21 | 21 | 21 | 21 | 21 | 20 | 21 | 21 |
| Ynys Môn | 13 | 13 | - | 13 | 13 | 13 | 13 | - |
| Merthyr Tudful | 5 | 5 | 5 | - | - | 5 | 7 | 7 |
| Sir Fynwy | 9 | 9 | 9 | 9 | 9 | 8 | 8 | 8 |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Castell-nedd Port Talbot | 23 | 21 | 23 | 19 | 19 | - | 20 | 20 |
| Casnewydd | 12 | 13 | 13 | 13 | - | 10 | 11 | 11 |
| Sir Benfro | 17 | 17 | 17 | 14 | 17 | 17 | 17 | 17 |
| Powys | - | - | 23 | 23 | 23 | 23 | 23 | 23 |
| Rhondda Cynon Taf | 33 | 36 | 36 | 36 | - | 36 | 36 | 36 |
| Abertawe | 21 | 21 | 21 | 21 | - | 20 | 21 | 20 |
| Tor-faen | 6 | 6 | 6 | 6 | 6 | 6 | 6 | 6 |
| Bro Morgannwg | 11 | 11 | 11 | 11 | 11 | - | 9 | 11 |
| Wrecsam | 14 | 13 | 13 | 13 | - | - | 12 | - |

Nodiadau
Daw'r ffigurau o Ystadegau Gwirioneddol Llyfrgelloedd Cyhoeddus CIPFA, sy'n seiliedig ar wybodaeth a ddarperir gan yr awdurdodau lleol. Ni ddychwelwyd gwybodaeth gan rai awdurdodau mewn rhai blynyddoedd a dangosir hyn gan y nodyn '-'

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'u cael yn ddiweddar gyda Thrysorlys y DU ynghylch ardrethi busnes? (WAQ53956)

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol (Brian Gibbons):** Mae'r Trysorlys wedi cadarnhau bod yn rhaid i Lywodraeth y Cynulliad ariannu unrhyw leihad mewn cyfraddau busnes nad yw Llywodraeth y DU yn eu hariannu yn Lloegr. Mae Gweinidogion Cymru wedi trafod cyfraddau busnes gyda Llywodraeth y DU a chytunodd i ariannu rhyddhad ar gyfer adeiladau gwag sydd â gwerth ardrethol o hyd at £15,000 yn 2009-10, ac i alluogi trethdalwyr i ohirio 60% o'r cynnydd mewn cyfraddau busnes cyffredinol ar gyfer 2009-10 yn ystod y ddwy flynedd ariannol nesaf.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa ystyriaeth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i gwneud ar gyfer eithrio busnesau bach sydd â gwerth ardrethol dan £10,000 rhag ardrethi busnes? (WAQ53957)

**Brian Gibbons:** Yn ddiweddar rhoddais ymrwymiad Cymru'n Un Llywodraeth y Cynulliad ar waith yn llawn i ehangu cynllun rhyddhad ardrethi busnes bach ac mae £20 miliwn ar gael i ariannu hyn. Byddai'r cynnig am drothwy rhyddhad o £10,000 yn costio hyd at £70 miliwn ychwanegol a byddai'n rhaid cyflawni hyn drwy leihau'r adnoddau sydd ar gael i Lywodraeth y Cynulliad ar gyfer blaenoriaethau eraill.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa gefnogaeth sydd ar gael i dai tafarndai sy'n darparu gwasanaethau cymunedol yng Nghymru? (WAQ54018)

**Brian Gibbons:** Mae cynllun o'r enw 'Pub is the Hub' yn cael ei redeg gan ymddiriedolaeth gynghori annibynnol. Sefydlwyd y cynllun i wella gwerth cymunedol tafarndai drwy ariannu ffyrdd gwahanol i'w defnyddio.

Rhoddwyd grant o £16,000 i 'Pub is the Hub' gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i ymgymryd â phrosiect ymchwil i nodi'r potensial i roi'r cynllun ar waith yng Nghymru.

Hyd yma yng Nghymru, mae ‘Pub is the Hub’ wedi ariannu rhan o brosiect a fydd yn galluogi cymunedau yng nghefn gwlad Sir Ddinbych i edrych am ffyrdd arloesol o sicrhau bod tafarndai gwledig yn parhau’n berthnasol i anghenion eu cymunedau lleol.

At hynny, mae arian Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gael i gefnogi swyddfeydd post, gan gynnwys y rheini sydd wedi’u lleoli y tu mewn i dafarndai.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa ystyriaeth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei rhoi i’r polisi o godi pris sylfaenol fesul uned o alcohol? (WAQ54032)

**Brian Gibbons:** Yn strategaeth ddeng mlynedd newydd Llywodraeth Cynulliad Cymru i fynd i’r afael â chamddefnyddio sylweddau, "Gweithio Gyda’n Gilydd i Leihau Niwed", rydym yn nodi ein bod am weld isafswm prisio fel un o’r dulliau o leihau niwed sy’n gysylltiedig ag alcohol.

Rydym wrthi’n edrych ar gwmpas Deddf Llywodraeth Cymru 2006 mewn perthynas â nifer o fesurau yn ymwneud ag alcohol ac rydym yn parhau i roi pwysau ar Lywodraeth y DU i ddeddfu ar nifer o fesurau i helpu i fynd i’r afael â niwed sy’n gysylltiedig ag alcohol.